# YR ATODLENNI

## ATODLEN 6

## ER MWYN DIOGELU NETWORK RAIL

### *Rhagarweiniad*

**1.**—(1) Bydd darpariaethau canlynol yr Atodlen hon yn effeithiol oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig rhwng yr ymgymerwr a Network Rail.

(2) Yn yr Atodlen hon—

mae "adeiladu" ("*construction*", "*construct*") yn cynnwys gweithredu, gosod, addasu ac ailadeiladu ac mae i "wedi adeiladu" ("*constructed*") ystyr gyfatebol;

ystyr "cwmni cysylltiedig perthnasol" ("*relevant associated company*") yw unrhyw gwmni sydd (o fewn ystyr adran 736 o Ddeddf Cwmnïau 1985(**1**)) yn gwmni daliannol i Network Rail Infrastructure Limited, yn is-gwmni i Network Rail Infrastructure Limited, neu i is-gwmni arall cwmni daliannol Network Rail Infrastructure Limited, ac, yn unrhyw achos o'r fath, yn dal neu'n defnyddio eiddo at ddibenion rheilffyrdd;

ystyr "eiddo'r rheilffyrdd" ("*railway property*") yw unrhyw rheilffordd sy'n perthyn i Network Rail ac unrhyw weithfeydd, cyfarpar ac offer sy'n perthyn i Network Rail neu gwmni cysylltiedig perthnasol sy'n gysylltiedig ag unrhyw reilffordd o'r fath, ac sy'n cynnwys unrhyw dir a ddelir neu a ddefnyddir gan Network Rail neu gwmni cysylltiedig perthnasol at ddibenion y rheilffordd, y gweithfeydd, y cyfarpar neu'r offer hynny.

ystyr "gwaith perthnasol" ("*relevant work*") yw—

(a) pa faint bynnag o unrhyw weithfeydd awdurdodedig sydd wedi'i leoli ar, ar draws, o dan, dros, o fewn 15 metr o, neu a all gael unrhyw effaith niweidiol ar, eiddo'r rheilffyrdd; a

(b) i'r graddau nad yw'n waith awdurdodedig, unrhyw waith diogelu a adeiladwyd gan yr ymgymerwr;

ystyr "gweithfeydd diogelu" ("*protective works*") yw gweithfeydd a bennir gan y peiriannydd o dan baragraff 5(1);

ystyr "*Network Rail*" yw Network Rail Infrastructure Limited, ac eithrio'r ffaith bod unrhyw gyfeiriad at gostau neu at golledion a welwyd gan Network Rail yn cynnwys cyfeiriad at y costau neu'r colledion a welwyd gan unrhyw gwmni cysylltiedig perthnasol;

ystyr "y peiriannydd" ("*the engineer*") yw peiriannydd sydd i'w benodi gan Network Rail at y diben o dan sylw; ac

mae ystyr "planiau" ("*plans*") yn cynnwys trawsluniau, dyluniadau, darluniau, manylebau, adroddiadau ar bridd, cyfrifiadau, disgrifiadau (gan gynnwys disgrifiadau o ddulliau adeiladu) a rhaglenni.

(**1**) 1985 p.6.